

Canllaw defnyddwyr gwasanaeth i'r

Ddyletswydd Gonestrwydd

Dylai bod yn agored ac yn onest fod wrth wraidd pob perthynas rhwng y rhai sy'n darparu triniaeth a gofal a'r rhai sy'n eu derbyn.

Beth yw'r Ddyletswydd Gonestrwydd?



Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn ofyniad cyfreithiol i Sefydliadau GIG Cymru fod yn agored ac yn onest gyda'r defnyddwyr gwasanaethau sy'n derbyn gofal a thriniaeth. Amlinellir hyn yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

Mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd yn berthnasol os yw'r gofal a ddarparwn wedi, neu y gallai fod wedi cyfrannu at niwed cymedrol neu ddifrifol annisgwyl neu anfwriadol, neu farwolaeth.

Ein Nod

Yn y GIG, rydym yn ymdrechu i ddarparu gofal diogel a thosturiol o ansawdd uchel i bob un o ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Fodd bynnag, hyd yn oed pan fyddwn yn gwneud ein gorau, gall pobl brofi niwed weithiau. Dyna pam mae'r Ddyletswydd Gonestrwydd gennym.

Ein nod yw creu diwylliant o ymddiriedaeth a bod yn agored, fel y gallwch deimlo'n hyderus yn y gofal a gewch gennym.

Beth ydyn ni'n ei olygu wrth niwed cymedrol neu ddifrifol?



Niwed Cymedrol:

Mae defnyddiwr gwasanaeth yn profi cynnydd cymedrol mewn triniaeth a niwed sylweddol, ond nid yw'n niwed parhaol. Mae'r gofal a ddarparwyd gan y GIG wedi cyfrannu at hyn, neu'n mae'n bosibl ei fod wedi cyfrannu ato.

Er enghraifft, er bod nodiadau'r claf yn dweud bod alergedd gan y claf i feddyginiaeth benodol, rhoddir y feddyginiaeth honno i'r claf ac mae'n arwain at adwaith sylweddol sy'n golygu bod angen i'r claf aros yn yr ysbyty am bedwar diwrnod neu fwy cyn iddo wella.



Niwed Difrifol:

Mae defnyddiwr gwasanaeth yn profi anabledl parhaol neu'n colli ei allu corfforol. Mae'r gofal a ddarparwyd gan y GIG wedi cyfrannu at hyn neu'n mae'n bosibl ei fod wedi cyfrannu ato.

Er enghraifft, er bod nodiadau'r claf yn dweud bod alergedd gan y claf i feddyginiaeth benodol, rhoddir y feddyginiaeth honno i'r claf ac mae'n arwain at niwed i'r ymennydd neu niwed parhaol arall i'w organau.



Marwolaeth:

Mae defnyddiwr gwasanaeth yn marw ac mae'r gofal a ddarparwyd gan y GIG wedi cyfrannu at y farwolaeth honno neu mae'n bosibl ei fod wedi cyfrannu ati.

Er enghraifft, er bod nodiadau'r claf yn dweud bod alergedd gan y claf i feddyginiaeth benodol, rhoddir y feddyginiaeth honno i'r claf ac mae'n arwain at ei farwolaeth.

Beth allwch chi ei ddisgwyl?

Dyma grynodeb o'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd y bydd y GIG yn ei dilyn:



Wrth ddod yn ymwybodol bod y ddyletswydd gonestrwydd yn berthnasol, rhaid i'r GIG hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth neu'r unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran. Dylai'r cyswllt hwn fod 'yn bersonol', sy'n golygu dros y ffôn, galwad fideo neu wyneb yn wyneb.



Pwrpas hysbysu'r claf 'yn bersonol' yw cynnig ymddiheuriad, rhoi esboniad o'r hyn sy'n hysbys bryd hynny, cynnig cymorth, egluro'r camau nesaf a darparu manylion pwynt cyswllt.



Anfonir llythyr at y defnyddiwr gwasanaeth neu'r unigolyn sy'n gweithredu ar ei ran o fewn pum diwrnod gwaith, a fydd yn cadarnhau'r hyn a ddywedwyd yn yr hysbysiad 'yn bersonol'.



Bydd y GIG yn cynnal ymchwiliad i ddarganfod yr hyn a ddigwyddodd a pham, a sut y gallwn ei atal rhag digwydd eto.

Bydd hyn yn digwydd yn unol â Gweithdrefn 'Gweithio i Wella' GIG Cymru.

Parhad trosodd



Bydd y pwynt cyswllt enwebedig a ddarperir fel rhan o'r weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd yn rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y broses hon a'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.

Os nad ydych am i ni gysylltu â chi, neu os byddai'n well gennych i rywun weithredu ar eich rhan, rhowch wybod i ni a byddwn yn gwneud y trefniadau angenrheidiol.

Ymddiheuro

Mae rhoi ymddiheuriad ystyrlon yn rhan bwysig o'r Weithdrefn Dyletswydd Gonestrwydd.

Mae ymddiheuriad yn fynegiant o dristwch neu ofid am y niwed a brofwyd. Fodd bynnag, nid cyfaddef bai nac atebolrwydd cyfreithiol mo ymddiheuriad.



Cymorth Pellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, neu os hoffech arweiniad, ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'r sefydliad lle cawsoch eich gofal.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys manylion cyswllt sefydliadau GIG Cymru, ar gael gan:



www.llyw.cymru/dyletswydd-gonestrwydd-y-gig



Cyhoeddwyd: 22/02/2023